Datganiad i'r Wasg.
Dan embargo tan 00:01 Dydd Mercher 10 Mehefin 2009.

Comisiynydd Plant yn cyhoeddi canlyniadau gwaith ymchwil cenedlaethol am ofalwyr ifanc yng Nghymru

Heddiw (dydd Mercher, 10 Mehefin) bydd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, yn lansio adroddiad ar ofalwyr ifanc yng Nghymru a ysgrifennwyd ganddyn nhw eu hunain.

Bywyd Llawn Gofal, a fydd yn cael ei lansio yn y Senedd ym Mae Caerdydd fel rhan o ddathliad tri diwrnod i nodi cyflawniadau gofalwyr Cymru, yw ffrwyth gwaith ymchwil cenedlaethol uchelgeisiol a wnaed gan Ofalwyr Powys ar ran Comisiynydd Plant Cymru.

Bu tîm y prosiect, dan arweiniad rhai sydd eu hunain yn ofalwyr ifanc, yn casglu barn a safbwyntiau gan 19 o'r 22 prosiect gofalwyr ifanc yng Nghymru er mwyn dod o hyd i'r prif rwystrau mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu o ran gwireddu eu hawliau, a gyflwynwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gan gynnwys eu hawl i addysg, i ymlacio a chwarae, ac i gael parchu eu barn.

Dyma rai o'r canfyddiadau allweddol:

- Roedd 37% o ofalwyr ifanc yn teimlo nad oedd eraill yn parchu eu barn
- Roedd 52% wedi teimlo eu bod nhw'n methu ymdopi yn ystod yr wythnos ddiwethaf
- Nid oedd 73% o'r rhai oedd yn gweinyddu meddyginiaeth erioed wedi derbyn unrhyw hyfforddiant

Dywedodd Keith Towler:

"Mae pryderon bod llawer o ofalwyr ifanc, sef mwy na 2% o'r holl blant o dan 16 oed yng Nghymru, yn methu mwynhau eu hawliau o dan CCUHP. Roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n hollbwysig rhoi llais i'r bobl ifanc yma a gweithio'n agos gyda nhw i gael darlun cliriach o sut maen nhw'n byw eu bywydau.

"Mae'r ymchwil gynhwysfawr yma gan Ofalwyr Ifanc Powys wedi fy ngalluogi i glywed barn dros 150 o ofalwyr ifanc o bob rhan o'r wlad. Mae wedi amlygu nifer o rwystrau mae'r bobl ifanc yma'n eu hwynebu wrth ymarfer eu hawliau, ac wedi fy arwain i lunio cyfres o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol er mwyn gwella'r sefyllfa ar gyfer gofalwyr ifanc ledled Cymru. Bydd fy nhîm yn cadw llygad ar yr ymateb i'r argymhellion hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf."

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried yr angen am Strategaeth Genedlaethol i Ofalwyr Ifanc
- Dylai awdurdodau lleol asesu anghenion gofalwyr ifanc, a pheidio â disgwyl iddynt gyflawni tasgau amhriodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys rhai awgrymiadau gan ofalwyr ifanc, yn cynnwys datblygu Cerdyn Adnabod y gallai pobl ifanc ei ddefnyddio i egluro eu cyfrifoldebau mewn modd heb ei bersonoli.

Dan arweiniad Prosiect Gofalwyr Ifanc Powys, casglwyd barn y gofalwyr ifanc mewn saith digwyddiad ar draws Cymru. Fel mae Dux, Arweinydd Tîm Gofalwyr Ifanc Powys, yn egluro:

"Ar ôl trefnu nifer o ddigwyddiadau i ofalwyr o bob rhan o Gymru, roeddem ni'n teimlo'n hyderus i wneud y gwaith ymchwil pwysig hwn i Gomisiynydd Plant Cymru.

Mwy…

“Roedden ni eisiau i’r bobl ifanc deimlo’n gyfforddus a diogel yn y digwyddiadau yma, a rhoi cyfle iddyn nhw fod yn ddi-enw wrth ateb y cwestiynau. Fe lwyddon ni i wneud hynny trwy gasglu gwybodaeth mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys padiau pleidleisio fel y rhai sy’n cael eu defnyddio mewn sioeau fel ‘Who Wants to be a Millionaire’.

“Y canlyniad yw adroddiad manwl y bu’r gofalwyr ifanc yn helpu i’w ysgrifennu, sy’n rhoi darlun clir i’r Comisiynydd o fywydau gofalwyr ifanc yng Nghymru.”

I ddarllen a lawrlwytho copi o’r adroddiad, ewch i www.complantcymru.org.uk neu www.powyscarersservice.co.uk

Diwedd

Nodiadau i Olygyddion

1. Bu Gofalwyr Ifanc o Flaenau Gwent, Caerffili, Caerfyrddin, Conwy, Cwm Cynon, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Merthyr, Sir Fynwy, Castell-nedd Port Talbot, Casnewydd, Sir Benfro, Powys, Rhondda a Thaf, Abertawe, Torfaen, Ynys Môn a Wrecsam yn cymryd rhan yn yr ymchwil.

2. Mae Gofalwyr Ifanc Powys yn rhan annatod o Wasanaeth Gofalwyr Powys. Sefydliad annibynnol yw Gwasanaeth Gofalwyr Powys sy’n darparu gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chymorth ymarferol i ofalwyr o bob oed ym mhob rhan o Bowys. Gan weithio mewn partneriaeth â’r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Bwrdd Iechyd Lleol a sefydliadau gwirfoddol eraill, eu nod yw cael hyd i’r gofalwyr yn y gymuned, cynnig cefnogaeth iddynt, a’u rhoi mewn cysylltiad ag asiantaethau a gwasanaethau lleol eraill a allai eu helpu. www.powyscarers.org.uk

3. I drefnu cyfweliad â Keith Towler neu â gofalwr ifanc a fu’n rhan o’r ymchwil, cysylltwch â Lucy Payne ar 01792 765636 neu 07794 123138

4. Bydd *Bywyd Llawn Gofal* yn cael ei lansio fel rhan o ddathliad tri diwrnod o Ofalwyr Cymru yn y Senedd yn ystod Wythnos Genedlaethol Gofalwyr 2009. Bydd y digwyddiadau’n cynnwys: Sol Jorgensen Work in Progress 2009. Darluniadau ar raddfa fawr gan yr artist Sol Jorgensen ac enghreifftiau o brosiect troi Dyddlyfr yn Faner a gynhyrchwyd gyda Gofalwyr De Cymru. Arddangosir ar y cyd â Chanolfan Hanes a Chelfyddydau Trebiwt yn ystod gweddill Mehefin / Gorffennaf, gyda chefnogaeth Gŵyl y Gwanwyn. I weld rhagor, a’r Dyddlyfrau, ffoniwch 029 20 256757 neu anfonwch e-bost i sol.jorgensen@talktalk.net